

Cariad

Darlleniad: 1 Corinthiaid 13: 1-13

Atat ti, O! Arglwydd, ein Duw a'n Tad, yr agosawn yn awr mewn gweddi. Fe'th gydnabyddwn ac fe'th glodforwn am ein creu a'n cynnal ac am dy gariad dihysbydd tuag atom yn dy Fab, Iesu Grist, ein Harglwydd. Canmolwn di am y datguddiad cyflawn ohonot a gawn ynddo ef, ac am ei fod yn esiampl berffaith i ni ei efelychu.

Diolchwn, O! Dduw, am y rheiny a'n carodd ni pan oeddem yn blant. 'Am dadau pur a mamau mwyn, ein Tad, moliannwn di.' Am inni gael y sicrwydd o'th gariad di trwy gariad ein rhieni tuag atom; am iddynt barhau i'n caru a'n canmol er ein hannheilyngdod yn aml; am inni dderbyn o eithaf eu cariad hwy a hynny hyd at aberth yn fynych, O! Dad, derbyn ein diolch.

A ninnau'n diolch i ti, O! Dduw, am ein breintiau a'n bendithion, dymunwn gofio'r sawl sydd yn byw mewn arswyd ac ofn yn y byd; y sawl sy'n byw mewn chwerwder a chasineb ac wedi'u hamddifadu o gariad a charedigrwydd yn eu bywyd. Clyw ein cri, dirion Dad, dros y trueiniaid hyn i gyd.

Cyffeswn ger dy fron, O! Arglwydd, ei bod yn anodd ac weithiau yn amhosibl, cyrraedd y patrwm delfrydol o garu, 'fel y ceraist ti ni.' Weithiau, O! Dduw, gall caru gelyn fod yn fwrn ac yn faich. Am hynny, dyro inni dy Ysbryd a llanw'n calonnau o'r gwir gariad nad yw'n ein gollwng byth. Cynorthwya ni i gyd i geisio, 'gweld yr enfys drwy y glaw' ac i'n perthynas â'n cyd-ddyn fod yn iachach, yn lanach, yn burach, yn gyfoethocach ac yn berffeithiach nag erioed o'r blaen.

Tosturia, O! Arglwydd, wrthym ni ac wrth bobloedd yr holl fyd yn ein methiant ymddangosiadol i'th ddatguddio'n 'dduw y cariad nad yw'n oeri' yn ein bywydau; maddau'r chwerwder a'r dicter sy'n llanw'n calonnau ni ac sy'n llifo'n fôr ym mywyd trigolion byd.

Diolchwn er hynny, am boced o obaith sydd i'w gweld yma a thraw ar wyneb daear, lle mae dyn yn mynnu bod yn frawd i'w gyd-ddyn er gwaethaf yr amgylchiadau a'r anawsterau i gyd.

Planna, O! Dduw, dy Ysbryd o'n mewn er mwyn cael gwell byd, lle y gall dynion gyd-fyw'n gytûn mewn harmoni a heddwch. Helpa ni, O! Dad, ym mlwyddyn rhyngwladol 'goddefgarwch' i ddangos trwy gariad, ein bod yn barod i, 'oddef i'r eithaf, i gredu i'r eithaf, i obeithio i'r eithaf ac i ddal ati i'r eithaf', er mwyn ein gilydd ac er clod i ti.

Wrth inni, O! Dduw, ofyn am dy bardwn am ein ffaeleddau, deisyfwn yr un pryd i ti'n cynorthwyo ni i wneud popeth yn ein gallu i sefydlu cariad a chymod, dealltwriaeth a doethineb rhwng pobloedd a chenhedloedd byd.

'O! nefol Dad, dy gariad di, sydd wedi dysgu'n cariad ni, gwrando'n drugarog ar ein cri, er mwyn yr Oen.'

Gweddiwn hyn, yn enw a haeddiant dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist. Amen.

Eric Williams